# Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. K P Hughes, R Ll Jones, G O Jones, Alun W Mummery a Dafydd Roberts. |
| **WRTH LAW :** | Y Trysorydd,<br>Swyddog Cymorth/Pwyllgor (SC). |
| **YMDDIHEURIADAU :** | Y T Ll Hughes MBE, A M Jones, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Rupert Cecil, Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC |

---

**1** **ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr. R.O. Jones yn Gadeirydd.

**2** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd Mr. R.Ll. Jones yn Is-Gadeirydd.

**3** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4** **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd, 2016.

**5** **RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Asset Management (UK) Limited am y cyfnod hyd at fis Hydref 2017.

Dywedodd Cyfarwyddwr Tîm Elusennau HSBC eu bod yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad cronfa'r Ymddiriedolaeth. Rhoddodd gipolwg i Aelodau'r Pwyllgor ar gefndir y portfolio buddsoddi a nododd fod buddsoddiad Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn cael ei fuddsoddi yn y Strategaeth Twf ac Incwm sy'n bortffolio aml-ased. Gwerth y portfolio ar 30 Medi, 2017 oedd £22,947.867. Yr elw a ragwelir o'r portfolio oedd 7.67% (gros) gyda 7.36% (net).

Rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol a manwl i'r Pwyllgor am ddosbarthiad yr asedau a pherfformiad gwahanol elfennau'r portfolio.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn dymuno cyfleu eu gwerthfawrogiad i HSBC Investment Management am berfformiad eithriadol cronfa'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyfarwyddwr – Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod.**

## 6 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mwy yn 2018.

Dywedodd y Trysorydd bod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi neilltuo swm o arian yn 2016 a 2017 i ariannu ceisiadau llywyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Yn 2016, dyrannwyd £200,000 ac yn 2017 dyrannwyd £350k. Yn 2017 rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r broses o wneud cais am arian ac fe arweiniodd hynny at yr Ymddiriedolaeth yn cael 31 o geisiadau gan sefydliadau a oedd yn werth cyfanswm o £1.6m. Ar ôl i'r Pwyllgor Adfywio ystyried a gwerthuso'r ceisiadau roedd 12 ohonynt yn llwyddiannus a dyfarnwyd y cyfan o'r £350k ar ffurf grantiau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i 3 opsiwn:-

1. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (heb gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerth safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £177,000 ar gyfer grantiau mwy yn 2018.

2. Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf (gan gynnwys gwerth yr arian a drosglwyddwyd i'r Portffolio yn sgil gwerthu safle Rhosgoch) – byddai hyn yn darparu cronfa o £577,000 ar gyfer y grantiau mwy yn 2018.

3. Cynnal gwerth y gronfa fel yr oedd yn 2017 h.y. £350,000.

Yn dilyn trafodaethau ac ar ôl ystyried yr effaith ar y gronfa petai gwerth y buddsoddiadau yn disgyn **PENDERFYNWYD argymell opsiwn 3 i'r Ymddiriedolaeth Elusennol a bod £350,000 ar gael tuag at gyllido grantiau mwy yn 2018.**

**Mr R O Jones**
**Cadeirydd**